EISTEDDFOD FACH CAPEL DEWI 2019

Cafwyd noson hwylus dros ben yn Eisteddfod Fach 2019 gyda nifer fawr o blant a ieuenctid yn awyddus i gymryd rhan yn y canu, llefaru, darllen ar y pryd, areithiau ar y pryd a chwarae offeryn. Diolch i'r beirniaid Geraint a Sue Hughes a Ffion Wyn James; yr arweinydd Steffan Griffiths; cyfeilyddion Geraint Rees ac Helen Gibbon am eu gwaith caled drwy'r nos. Llywydd y nos oedd Dilwyn Morgan, cadeirydd Cyngor Cymuned Llanarthne.

Cyflwynwyd tystysgrif i'r ennillydd ym mhob cystadleuaeth yn ogystal a gwobr o £5 trwy garedigrwydd Cyngor Sir Gâr, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a Chyngor Cymuned Llanarthne. Dyfernir Tarian Sialens McCall i'r rhai a mwyaf o dystysgrifau ar ddiwedd y noson ac eleni Beca Curry, Capel Dewi a'i henillodd

Darparwyd lluniaeth gan Peter a Mair Bowen.

Mae Cymdeithas Gymuned Capel Dewi yn edrych ymlaen I weld pob un blwyddyn nesaf eto.

Canlyniadau

Blynyddoedd 1 a 2
Llefaru ac Unawd: Angharad Llywarch, Llanddarog
Llawysgrifen: Beca Morris,

Blynyddoedd 3 a 4
Llefaru: Anna Jones, Llanarthne
Unawd: Ifanna Dafydd, Felingwm Uchaf
Llawysgrifen: Elen Lisle
Eitem offerynnol: Gwyn Llywarch, Llanddarog

Blynyddoedd 5 a 6
Llefaru a Llawysgrifen: Beca Curry, Capel Dewi
Unawd: Gwenno Evans, Llanddarog
Arlunio: Gwenan Morris
Eitem offerynnol: Tomos Axford

Cynradd
Darllen ar y pryd: Marged Jones, Llanarthne
Deuawd: Ffion a Cari, Llanddarog
Araith ar y pryd: Nia Thomas, Nantgaredig

Blynyddoedd 7, 8, 9
Llefaru, Unawd ac Araith ar y pryd: Iwan Bryer, Llanarthne
Darllen ar y pryd ac Eitem offerynnol: Carwyn Axford

Blynyddoedd 10, 11, 12, 13
Llefaru ac Unawd: Hanna Medi, Pencader
Deuawd: Hanna a Celyn
Llawysgrifen, Darllen ar y Pryd, Araith ar y pryd ac Eitem offerynnol: Megan Bryer, Llanarthne

Dros 18
Llawysgrifen: Eirlys Willams

Agored
Sgen Ti Dalent: 1af Hanna a Celyn; 2il Carys Richards; 3ydd Nia a Beca
Canu Emyn: Helen Gibbon, Capel Dewi
Ffotograffiaeth: Beca Curry
Darllen darn heb atalnodi a *Dweud Jôc:* Nia a Beca

Llên
Brawddeg – Lleoliad: Mary B Morgan, Llanrhystud
Gorffen Limerig: Rhion
Sentence – Location: John Lewis, Llanbadarn Fawr ac Enid McCall (Cydradd)
Completing the Limerick: John Lewis, Llanbadarn Fawr

Cyfansoddiadau Buddugol

Roedd dros ugain o gynigion yn y Gymraeg. Dyma'r rhai buddugol:

Gorffen Limerig:

Wrth fynd ar-lein un diwrnod
Cwrddais â gŵr oedd briod,
A nawr mae 'na faban
I fod tua Calan,
Wel, dyna annibendod. Rhion

Brawddeg—LLEOLIAD:

Llifddorau eleni ollyngodd lysnafedd i achosi difrod Mary B Morgan, Llanrhystud

Sentence—LOCATION:

Labour overwhelmingly condemns antisemitism throughout its organisation nationally

John Lewis, Llanbadarn Fawr

Completing the Limerick:

One day while browsing the web
To earnestly seek a new deb
But to my surprise
Without telling lies
'Twas my wife in disguise, the celeb John Lewis, Llanbadarn Fawr